DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990
ADRAN 257 A PHARAGRAFF 1 O ATODLEN 14

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR
CAU RHAN O LWYBR TROED 16 YNYSAWDRE
GORCHYMYN CAU LLWYBR CYHOEDDUS RHIF 2 2022

Gwneir y Gorchymyn hwn gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (y cyfeirir wedi hyn fel "yr awdurdod") o dan Adran 257 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 oherwydd ei fod yn fodlon bod angen cau'r llwybr troed y mae'r Gorchymyn yn ymwneud ag ef er mwyn gallu cynnal datblygiad yn unol â Chaniatâd Cynllunio a roddwyd o dan Ran III o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 sef:-

Cais cynllunio amlinellol ar gyfer datblygu 450 o anheddau, defnydd dosbarth B1 1000sq.m, gwaith priffyrdd, man agored cyhoeddus, a dderbyniodd ganiatâd amodol (amlinelliad) ar 13 Rhagfyr 2018 ar dir i'r Gorllewin o Maesteg Road, Tondu, CF32 9DF (P/16/366/OUT).

Ceisiadau materion neilltuedig i P/16/366/OUT ar gyfer 405 o unedau preswyl, ffordd gyswllt a maes parcio dros dro, y rhoddwyd caniatâd amodol (materion a gadwyd yn ôl) ar 17 Medi 2020 ar dir i'r Gorllewin o Maesteg Road, Tondu, CF32 9DF (P/19/915/RES).

Yn ôl y Gorchymyn hwn:

1. Bydd y llwybrau troed dros y tir a ddangosir gan linellau du trwm ar y map atodedig ac a ddisgrifir yn Rhan 1 o'r Atodlen ("yr Atodlen") i'r Gorchymyn hwn yn cael ei gau fel y darperir isod.

2. Bydd cau'r llwybr troed yn cael effaith ar y dyddiad y bydd y gorchymyn yn cael ei gadarnhau

3. Mae'n ofynnol drwy hyn i'r ceisydd am y Gorchymyn, sef Llanmoor Development Co. Limited, 63-65 Talbot Road, Tonysguboriau, Pont-y-clun, CF72 8AE, dalu'r costau sy'n gysylltiedig â gwneud y Gorchymyn hwn.

4. Yn union cyn y dyddiad y caiff y llwybr troed ei gau, pan fo cyfarpar oddi tano, ynddo, neu drosto, ar ei hyd neu ar ei draws sy'n eiddo i ymgymerwyr statudol at ddiben cyflawni eu hymrwymiad, bydd yr ymgymerwyr yn parhau i fod â'r un hawliau mewn perthynas â'r cyfarpar fel oedd ganddyn nhw cyn hynny.

ATODLEN

RHAN 1
DISGRIFIAD O SAFLE'R LLWYBR PRESENNOL NEU FFORDD I GAEL EI GAU

Mae'r rhan o Lwybr Troed 16, Ynysawdre sydd i'w gau yn cychwyn ar hyn o bryd ar Bwynt C (Cyfeirnod Grid SS 89088442), ac yn mynd ymlaen i gyfeiriad y gorllewin a'r gogledd-orllewin am tua 52 metr i Bwynt A (Cyfeirnod Grid SS 89028444) cyn parhau i gyfeiriad y gorllewin gogledd-orllewin am tua 75 metr i'w gyffordd â Derllwyn Road ar Bwynt H (Cyfeirnod Grid SS 88958445) fel y dangosir ar y Cynllun Gorchymyn atodedig.

Cyfanswm hyd Llwybr Troed 16 Castell Newydd Uchaf i'w gau yw tua 537 metr gyda lled o 2 fetr.

Sêl Gyffredin CYNGOR BWRDEISTREF SIR)
PEN-Y-BONT AR OGWR)
wedi'i osod yma)
ar ddiwrnod 2022)

…… Llofnodwr Awdurdodedig:





TOWN AND COUNTRY PLANNING ACT 1990
SECTION 257 & PARAGRAPH 1 OF SCHEDULE 14
BRIDGEND COUNTY BOROUGH COUNCIL (STOPPING UP OF PART OF FOOTPATH 16 YNYSAWDRE)
PUBLIC PATH STOPPING UP ORDER NO. 2 2022

KEY

Route to be stopped up (C-A-H)

Continuation/Other routes

Scale: 1: 1250

N
W E
S

Janine Nightingale
Corporate Director - Communities
Communities Directorate

Bridgend County Borough Council,
Civic Offices,
Angel Street,
Bridgend,
CF31 4WB

©Crown Copyright and database right 2021. Ordnance Survey 100023405. Use of this data is subject to terms and conditions.
©Hawlfraint a hawliau cronfa ddata'r Goron 2021 Rhif Trwydded yr Arolwg Ordnans 100023405. Mae defnydd o'r data hwn yn ddarostyngedig i delerau ac amodau.

Aerial Imagery: Cities Revealed aerial photography copyright The GeoInformation Group 2011. Copyright Getmapping plc.

Countryside Council for Wales, ©Crown Copyright and database right 2011. Ordnance Survey 100018813.

Forestry Commission, ©Crown Copyright and database right 2011. Ordnance Survey 100025498.